O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1522 (Cy.204)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Sarnau i Bentregât, Ceredigion) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall,(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Sarnau i Bentregât, Ceredigion) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 18 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darn o'r gefnffordd” *(“the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A487 yn Sir Ceredigion, sy'n ymestyn o bwynt 390 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4321 wrth Bentregât i bwynt 1330 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U5072, ger Sarnau.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Sarnau, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2003(**1**) o ran y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 ar waith.

**9.** Drwy hyn atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Brynhoffnant, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2003(**2**) o ran y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 ar waith.

(**1**) O.S.2003 2072/Cy.218.
(**2**) O.S. 2003 2142/Cy.220.

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 8 Mehefin 2012

***G R Morgan***
***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru